30 Hydref 2021

Annwyl Riant / Ofalwr,

Croeso cynnes yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau Hanner Tymor.

DIOLCH I RIENI A GOFALWYR

Yn y lle cyntaf, hoffwn ddiolch i rieni a gofalwyr yr Ysgol am eu cefnogaeth ers yr Haf. Cafwyd nifer o achosion o Covid-19 ymhlith disgyblion yr Ysgol yn ystod Medi a Hydref, a bu rhieni'r ysgol yn gydwybodol yn **hysbysu'r** Ysgol o'r achosion hyn ac yn sicrhau bod eu plant yn hunan-ynysu am y cyfnod angenrheidiol. **Gofynnwn** i chi barhau i wneud hynny, gan ofyn i'ch plant gysylltu â'u hathrawon trwy e-bost am waith angenrheidiol pan fyddant yn teimlo yn well. Ochr yn ochr â hyn, dymuna'r Ysgol i chi annog eich plant i fynychu'r ysgol yn gyson dros yr wythnosau nesaf. O ran presenoldeb, 100% yw'r targed ar gyfer pob unigolyn tan Nadolig. Mae colli un diwrnod o ysgol heb reswm da iawn yn tarfu ar addysg eich plentyn yn ddiangen.

Er hyn, os yw eich plentyn yn dost, neu yn arddangos unrhyw symptomau Covid-19, gofynnwn i chi eu cadw gartref, gan ddod yn ôl i'r Ysgol pan yn holliach, neu ar ôl y cyfnod priodol o hunan-ynysu os yw'n profi'n bositif.

MESURAU COVID-19

- Gofynnwn i chi barhau i ofyn i'ch plant i gymryd profion LFT gartref ar fore Llun a bore Iau cyn dod i'r Ysgol. Mae cyflenwadau digonol o brofion LFT ar gael yn yr Ysgol.
- Os yw'r prawf LFT yn bositif, bydd yn rhaid i'ch plentyn ynysu tan fod canlyniad prawf PCR negyddol wedi ei dderbyn.
- Os yw eich plentyn yn arddangos unrhyw symptomau Covid-19, gofynnwn i chi eu cadw gartref, a mynnu ei fod yn cymryd prawf PCR ac ynysu tan fod canlyniad negatif yn dod nôl.
- Os yw'r prawf PCR ar gyfer eich plentyn yn dod 'nôl yn bositif, bydd yn rhaid i'ch plentyn hunan-ynysu am 10 diwrnod. A wnewch chi hysbysu'r Ysgol os oes canlyniad positif.
- Yn dilyn cyhoeddiad ddoe gan Lywodraeth Cymru, os oes unrhywun yn profi'n bositif yn y cartref, bydd hi'n ofynnol i bawb yn y cartref i gymryd prawf PCR yn syth ac ynysu (am 24 awr gobeithio) tan i'r prawf ddod nôl yn negatif. Wedi derbyn canlyniad PCR negyddol mewn cartref lle mae Covid, bydd angen cymryd prawf LFT yn feunyddiol am wythnos rhag ofn.

Rydym yn parhau i danlinellu'r angen i gynnal safonau hylendid personol, golchi dwylo yn aml, ac awyru stafelloedd, Bydd ardaloedd prysur o'r Ysgol yn cael eu glanhau yn gyson yn ystod y dydd. Bwriedir cynnal cyfundrefnau unffordd, sicrhau bod desgiau ym mhob stafell ddosbarth yn wynebu'r blaen, a chynnal pellter ymarferol briodol rhwng staff a disgyblion. Mae gofyn i bob

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

plentyn i wisgo mwgwd ar y bws i'r Ysgol, a'u gwisgo hefyd mewn ardaloedd cyfyng wrth deithio o wers i wers ar y safle.

AP BWYD

Bydd yr adeilad newydd ar agor ar Ddydd Mawrth, a bydd y Ffreutur ar gael **amser cinio yn unig** o Ddydd Mawrth **am yr wythnos gyntaf**. Bydd disgwyl i bob plentyn (ar wahân i ddisgyblion sy'n derbyn cinio rhad) ddod â phecyn bwyd a digon o ddiod ar gyfer Dydd Llun. Bydd disgyblion sydd yn derbyn Cinio Rhad yn derbyn pecynnau bwyd ar Ddydd Llun.

Pan fydd y Ffreutur newydd yn agor ar Ddydd Mawrth, bydd yn rhaid i ddisgyblion ddefnyddio ein Ap Bwyd i archebu bwyd, ar gyfer amser cinio yn y lle cyntaf, ar eu ffonau symudol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gyfarwydd â'r Ap ers cyn yr Haf, ac rydym wedi hysbysu rhieni a disgyblion newydd o sut i ddefnyddio meddalwedd sQuid (i dalu) a Dill (i archebu). Bydd yr Ap ar agor o Ddydd Llun ar gyfer archebu Ddydd Mawrth.

O Ddydd Llun 8 Tachwedd, bydd modd archebu bwyd ar gyfer amser egwyl a chinio.

DIWRNODAU HMS

Dyma wybodaeth parthed dyddiau HMS ar gyfer 2021-22.

Dyddiau HMS 2021-22
HMS 1 Dydd Iau 2 Medi 2021
HMS 2 Dydd Llun 29 Tachwedd 2021
HMS 3 Dydd Mawrth 4 Ionawr 2022
HMS 4 Dydd Gwener 18 Chwefror 2022
HMS 5 Dydd Iau 23 Mehefin 2022
HMS 6 Dydd Iau 14 Gorffennaf 2022

Byddwn fel ysgol yn dibynnu eto ar eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad tan Nadolig. Fel ysgol anelwn at gadw aelodau'r gymuned yn iach a diogel; bwriadwn barhau i gynnal y safonau academaidd uchaf.

Yn gywir

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

30 October 2021

Dear Parent / Carer,

A warm welcome back to school after the Half Term holidays.

THANKS TO PARENTS AND CARERS

In the first instance, I would like to thank the parents and carers of the School for their support since the Summer. There has been a number of cases of Covid-19 among the pupils of the School during September and October, and parents of the school have been conscientious in informing the School of these cases and ensuring that their children self-isolate for the necessary period. We ask that you continue to do so, asking your children to contact their teachers by email for work if needs be when they feel better. Alongside this, the School would like you to encourage your children to attend school regularly over the coming weeks. In terms of attendance, the target is 100% for each individual until Christmas. Missing one day of school without a very good reason unnecessarily disrupts your child's education.

However, if your child is ill, or exhibits any Covid-19 symptoms, we ask that you keep them at home, returning to school when well, or after the appropriate period of self-isolation if they test positive.

COVID-19 MEASURES

• We ask that you continue to ask your children to take LFT tests at home on Monday and Thursday mornings before coming to School. We still have plentiful supplies of LFT tests in School.

• If the LFT test is positive, your child will have to isolate until a negative PCR test result is forthcoming.

• If your child exhibits any Covid-19 symptoms, we ask you to keep them at home, and insist that they take a PCR test and isolate until a negative result comes back.

• If the PCR test for your child comes back positive, your child will have to self-isolate for 10 days. Please inform the School if there is a positive test result.

• Following yesterday's announcement by the Welsh Government, if anyone tests positive in the home, everyone in the home will be required to take a PCR test immediately and isolate (hopefully for 24 hours) until the test come back negative. Having received a negative PCR result in a Covid home, the LFT tests will need to be taken daily for one week just in case.

We continue to emphasise the need to maintain standards of personal hygiene, frequent hand washing and ventilation of rooms. Busy areas of the School will be regularly cleaned throughout

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

the day. It is intended to maintain one-way regimes, ensure desks in all classrooms are front facing, and maintain an appropriate practical distance between staff and pupils. Every child is required to wear a mask on the bus to School, and also to wear them in confined areas when traveling from lesson to lesson on site.

THE SCHOOL FOOD APP

The new building will be open on Tuesdays, and the Canteen will be available at lunchtime only from Tuesday for the first week. All children (except for pupils who receive a free school meal) will be expected to bring a packed lunch and plenty to drink for Monday. Pupils who receive Free School Meals will receive packed lunches on Monday.

When the new Canteen opens on Tuesday, pupils will have to use the School's App to order food, at lunchtime in the first instance, on their mobile phones. Most pupils are familiar with the App since before the Summer, and we have informed new parents and pupils how to use sQuid (to pay) and Dill (to order) software. The App will be open from Monday to order for Tuesday.

From Monday 8 November, food will be available at break and lunch time.

INSET DAYS

Here is information regarding INSET days for 2021-22.

INSET DAYS 2021-22
INSET 1 Thursday 2 September 2021
INSET 2 Monday 29 November 2021
INSET 3 Tuesday 4 January 2022
INSET 4 Friday 18 February 2022
INSET 5 Thursday 23 June 2022
INSET 6 Thursday 14th July 2022

As a school we will depend again on your support and co-operation until Christmas. As a school we aim to keep members of the community healthy and safe; we intend to continue to maintain the highest academic standards.

Yours faithfully

Head

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk